

Swyddu
Cymru

Cwmpas x Ymddiriedolaethau Natur Cymru

Astudiaeth Achos

Prosiect masnachol gan
Dwf Busnes ac
Ymgynghoriaeth.





Mae Cwmpas wedi bod yn cefnogi Ymddiriedolaethau Natur Cymru ar ddechrau eu taith trawsnewid digidol.

Bu Marc Davies, Arweinydd Rhaglen Ddigidol Cwmpas, yn gweithio'n agos gydag Alice Kershaw, Pennaeth Trawsnewid Digidol yn Ymddiriedolaethau Natur Cymru, ac Elizabeth Stokes, Rheolwr Rhaglen yn Ymddiriedolaeth Natur Gwent, i greu strategaeth a fyddai'n flaengar ond hefyd yn hawdd ei chyflawni.

Mae'r ymchwil wedi cael ei rannu gyda phob un o'r 60 o Aelodau'r Senedd, Ysgrifennydd y Cabinet a swyddogion Llywodraeth Cymru.



Marc Davies

Marc Davies, Arweinydd y Rhaglen Ddigidol

Marc yw Arweinydd y Rhaglen Ddigidol yn Cwmpas. Wedi'i leoli yng ngorllewin Cymru, mae'n siaradwr Cymraeg iaith gyntaf ac wedi gweithio yn CWMPAS ers 2006. Mae ganddo rwydwaith helaeth o gysylltiadau ledled Ceredigion ac mae'n cynrychioli'r Trydydd Sector ar weithgorau strategol fel bwrdd Rhaglen Ddigidol Tyfu Canolbarth Cymru a Bwrdd Trawsnewid Digidol Rhanbarthol Hywel Dda.

Beth yw trawsnewid digidol?

Gall yr ymadrodd 'trawsnewid digidol' fod yn ymadrodd llethol i sefydliadau; fodd bynnag, mae symud gyda'r amseroedd digidol yn hanfodol ar gyfer twf a chynaliadwyedd unrhyw fusnes.

Mewn gwirionedd, yn ôl Arolwg Byd-eang McKinsey, mae COVID-19 wedi cyflymu'r cam o fabwysiadu technolegau digidol o sawl blwyddyn – ac mae llawer o'r newidiadau hynny yma am y tymor hir. Yn Cwmpas, rydym yn ceisio peidio â chanolbwyntio gormod ar yr agwedd dechnegol ac yn hytrach hoffwn ddisgrifio 'trawsnewid digidol' fel 'trawsnewid gwasanaeth' sy'n cael ei alluogi gan y maes digidol. Trwy edrych ar ymyriadau trwy lens gwella busnes, rydym yn gallu nodi'n well meysydd, gweithgareddau neu wasanaethau y mae angen edrych arnynt a lle gellid archwilio gwelliant neu newid.

Mae hyn yn caniatáu i ddatblygiad digidol ategu'r holl strategaethau busnes presennol.



Ein gwaith gydag Ymddiriedolaethau Natur Cymru

Gyda strategaeth ddigidol yn ei chamau cynnar, roedd gwaith Cwmpas gydag Ymddiriedolaethau Natur Cymru yn canolbwyntio'n helaeth ar sefydlu parodrwydd diwylliannol y sefydliad i fabwysiadu newid digidol.

Roedd defnyddio sefydliad fel Cwmpas yn bwysig i Ymddiriedolaethau Natur Cymru er mwyn cael gwybodaeth leol yn benodol i Gymru, gan fod gwahanol gyd-destunau o ran trawsnewid digidol hyd yn oed o'i gymharu â phrofiadau Ymddiriedolaethau Natur eraill.

Roedd hefyd yn hanfodol dod o hyd i bartner a allai weithio ochr yn ochr â phum Ymddiriedolaeth Natur leol Cymru ac edrych ar y strategaethau oedd eu hangen i wneud y cysyniad o drawsnewid digidol yn hygyrch. Mae Alice yn esbonio:

"Roedd gweithio gyda Cwmpas yn caniatáu inni ddod â'r arbenigedd a'r wybodaeth leol oedd eu hangen arnom i ddechrau ein taith trawsnewid digidol."

Roedd dwy elfen allweddol yng ngwaith Cwmpas gydag Ymddiriedolaethau Natur Cymru:

1) Asesiad Parodrwydd i Newid

Roedd yn cynnwys cyfweld â 55 o staff yr Ymddiriedolaeth Natur yng Nghymru i nodi sut maen nhw wedi rheoli ac ymdrin yn bersonol â newid sefydliadol a'r teimladau cyfredol ynghylch newid digidol.

Cafodd yr ymatebion eu paru yn erbyn y gromlin newid, a helpodd y canlyniadau hyn i ganfod parodrwydd diwylliannol Ymddiriedolaethau Natur yng Nghymru i fwrw ymlaen â newid yn y dyfodol.

Awgrymwyd yr ymatebion mwyaf cyson fel y camau nesaf i'r sefydliad eu harchwilio/gwella.

2) Asesiad Aeddfedrwydd Digidol

Roedd yn cynnwys pob un o Brif Weithredwyr yr Ymddiriedolaethau yn cwblhau asesiad ar-lein a oedd yn rhoi gwybodaeth ar draws wyth disgyblaeth am feysydd lle gallai pob Ymddiriedolaeth wella ei haeddfedrwydd digidol. Trwy gyfuno canfyddiadau'r ddau asesiad hyn, nododd Cwmpas bedwar maes gwahanol y gallai pob Ymddiriedolaeth Natur symud ymlaen â nhw o ran datblygu. Gosodwyd y rhain mewn Theori Newid, a oedd yn diffinio nodau tymor hir ac yna wedi'u mapio yn ôl i nodi rhagamodau angenrheidiol. Roedd y meysydd allweddol hyn yn cynnwys:

- Pobl
- Data a Thechnoleg
- Cyfathrebu
- Prosiectau a Gwasanaethau





Effaith

Cyn i Cwmpas gynnal eu hasesiadau, roedd Ymddiriedolaethau Natur Cymru wedi cael trafferth gyda synergedd rhwng creu a chyflwyno strategaeth ddigidol. Fodd bynnag, gyda chynllun newydd ar waith diolch i waith Cwmpas, nod Ymddiriedolaethau Natur yng Nghymru yw cael dull gwaith mwy cydweithredol ar draws yr holl ymddiriedolaethau unigol yng Nghymru, a sefydlu cysylltiad agosach â Strategaeth Ddigidol Genedlaethol Ymddiriedolaethau'r DU. Mae Marc yn ymhelaethu:

“Gyda'r wybodaeth hon, roeddem yn gallu helpu Ymddiriedolaethau Natur yng Nghymru i benderfynu ar eu camau nesaf. Heb brosesau fel y rhain a rhyngweithio personol ag aelodau'r sefydliad, gall fod yn anodd deall yn llawn y ffordd orau o weithredu. Mae cael y cam hwn yn iawn yn hollbwysig i'n proses yma yn Cwmpas.” →

Effaith Parhad

Derbyniwyd y canlyniadau a gyflwynwyd gan Marc yn gadarnhaol gan Ymddiriedolaethau Natur Cymru. Mae Alice yn esbonio: "O ganlyniad i'r ffaith bod Mark yn gallu cael cymaint o sgysiau agored gyda phobl, fe wnaeth wir helpu trafodaeth ehangach am yr hyn y gallai'r maes digidol ei olygu i'r Ymddiriedolaethau Natur yng Nghymru." Effeithiau allweddol y cyfnod archwilio cychwynnol hwn:



Codi ymwybyddiaeth ymhlith staff o beth yw trawsnewid digidol.



Hybu hyder ymhlith staff am eu capasiti a'u gallu i addasu i newid digidol.



Cael syniad o'r hyn y gallai ei olygu i fod yn sefydliad mwy digidol.

Bydd rhai camau allweddol, fel y gwiriwr aeddfedrwydd, yn dod yn arfer blynyddol yn Ymddiriedolaethau Natur Cymru. Bydd hyn yn sefydlu mesur parhaus sy'n gallu monitro cynnydd digidol ar draws pob Ymddiriedolaeth.

Cyngor i fusnesau eraill sy'n dymuno mabwysiadu trawsnewid digidol

Gall unrhyw fath o newid fod yn frawychus i sefydliadau; fodd bynnag, mae cymryd camau bach hyd yn oed a dysgu mewn darnau bach yn gwneud y broses yn fwy ymarferol ac effeithiol yn y tymor hir.

Mae Alice yn esbonio: "Does dim angen i chi newid popeth ar unwaith. Mae angen i chi weithio ar ei bwrpas yn gyntaf ac yna adeiladu'n araf bach i gynnwys mwy o elfennau. Bydd y ffordd organig hon o drawsnewid hefyd yn helpu i sicrhau cefnogaeth eich tîm i'r daith drawsnewid."

Dyma lle mae Cwmpas yn gallu helpu. Fel llais annibynnol, mae Cwmpas yn gallu cydweithio â'ch sefydliad i nodi'r llwybr gorau tuag at drawsnewid digidol mewn unrhyw sefydliad trydydd sector, sefydliad neu adran sector cyhoeddus. Dywedodd Alice i gloi:

“Mae gweithio gyda Marc a thîm cyfan Cwmpas wedi bod yn wych. Daeth Marc â'r persbectif allanol hanfodol hwnnw i'r tîm ond nid oedd ganddo agwedd, "Mae'n rhaid i chi wneud hyn!" Roedd yn teimlo fel ein bod ni'n gweithio ar y daith drawsnewid hon gyda'n gilydd, ac roedd hynny'n bwysig iawn yn ddiwylliannol i ni.”




Effaith Parhad

Mae Alice yn pwysleisio pwysigrwydd strategaeth trawsnewid digidol gadarn:

“Mae mabwysiadu strategaeth trawsnewid digidol yn gosod y sylfaen ar gyfer dyfodol sefydliad fel y gall barhau i adeiladu ar ei daith ddigidol. Mae'n debyg iawn i gael y sylfaen gywir cyn i chi ddechrau rhoi'r holl flociau adeiladu yn eu lle.”

Newid: Digidol ar gyfer y Trydydd Sector

Daeth Cwmpas hefyd â phrosiect digidol o'r enw Newid Cymru i gefnogi'r Ymddiriedolaethau Natur. Mae'r prosiect Newid yn hyrwyddo arfer digidol da ar draws y trydydd sector yng Nghymru, ac roedd yr Ymddiriedolaethau hefyd yn gallu elwa o'r canllawiau hyn ar eu strategaeth ddigidol.



Swydd Cymdeithas

Darganfyddwch fwy:

Ffôn: 0300 111 5050

E-bost: info@cwmpas.coop

Gwefan: cwmpas.coop

Chwiliwch am **Cwmpas**
ar y cyfryngau cymdeithasol

